# CYFRIFON SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU AR GYFER Y CYFNOD 1 GORFFENNAF 1999 HYD 31 MAWRTH 2000

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 10 Atodlen 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

**Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru**

**RHAGAIR I'R CYFRIFON**

**AR GYFER Y CYFNOD 1 GORFFENNAF 1999 HYD 31 MAWRTH 2000**

## Gwybodaeth Gefndirol

Sefydlwyd Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru o dan Atodlen 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a daeth i fodolaeth ar 1 Gorffennaf 1999 ar ôl sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyn y cyfnod hwn roedd Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru'n rhan o Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad delid swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu.

Wedi sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, newidiodd y trefniadau adrodd ac ariannu ar gyfer Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru i gyd-fynd â phwerau a chyfrifoldebau'r corff etholedig newydd. Ariennir Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Cynulliad ond mae'n annibynnol arno.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys yn canlyn paragraff 9 Atodlen 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Nodau ac Amcanion a Phrif Bwrpas

Nod Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yw ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch camweinyddu yn y Cynulliad ac mewn rhai cyrff cyhoeddus anadrannol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cwynion y gwrthodwyd iddynt gael mynediad i wybodaeth a hynny yn groes i'r Cod Ymarfer ar Gael Mynediad i Wybodaeth Swyddogol (MGS).

Mae'r Swyddfa'n hollol annibynnol ar Gabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n uniongyrchol atebol i Aelodau'r Cynulliad.

Prif bwrpas y Swyddfa yw:

- ystyried cwynion a, lle y bo hynny'n briodol ymchwilio iddynt, gyda'r bwriad o'u datrys mewn modd diduedd ac yn gyflym;
- cyflwyno adroddiadau am y canlyniadau (fel y bo'n briodol) i'r Cynulliad, achwynwyr a chyrff y gwnaed cwynion yn eu herbyn;
- sicrhau y rhoddir iawndal priodol ar gyfer cwynion y ceir bod cyfiawnhad drostynt; a
- gyda golwg ar ganfyddiadau ymchwiliadau, hyrwyddo mesurau i wella'r gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus o fewn ei hawdurdod.

▪

Y nodau strategol yw:

1. ymdrin â phob cwyn yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym;

2. gwella effeithlonrwydd y Swyddfa; a

3. codi ymwybyddiaeth ymhlith achwynwyr posibl o'r Swyddfa, o'r rheini y gellid disgwyl iddynt droi atynt am gyngor, ac o gyrff o fewn ei hawdurdod a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu arfer da wrth ymdrin â chwynion.

Yn Atodlen 5 i'r cyfrifon hyn ceir Datganiad Adnoddau yn ôl Nodau Adrannol. Mae'r datganiad hwn yn nodi cost ymdrin â phob cwyn yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym.

Mae Grwp Gwasanaethau Canolog Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd yn cyfrannu at nodau strategol y Swyddfa trwy ddarparu gwasanaethau i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Adnoddau Dynol, Arian, TG, Rheoli Cyfleusterau ac Eiddo, Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd a Marchnata. Hefyd y grwp hwn yw'r prif ryngwyneb rhwng y Swyddfa ac adrannau canolog y llywodraeth gan gynnwys y Trysorlys a Swyddfa'r Cabinet ar faterion nad ydynt yn ymwneud â gwaith achos.

**Adroddiad Blynyddol**

Mae Adroddiad Adrannol Swyddfa'r Cabinet, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2000, yn cynnwys gweithgareddau a chyflawniadau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu, Comisiynydd Senedd yr Alban dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr ac yn yr Alban. Mae hefyd yn amlinellu datblygiadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol ac yn dadansoddi alldro gwariant ariannol dros y pum mlynedd flaenorol ac yn nodi cynlluniau ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Mae adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2000, yn cynnwys manylion am nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Swyddfa yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y nifer yr ymchwiliwyd iddynt neu a dderbyniwyd gan y Swyddfa er mwyn iddi ymchwilio iddynt. Mae hefyd yn nodi faint o ymchwiliadau a gwblhawyd. Yn ogystal mae'r adroddiad yn darparu arfarniad o faint o amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau ymchwiliad yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt, gwybodaeth am gyflawniadau pwysig trwy gydol y flwyddyn, a chrynodeb o'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Canlyniadau ar gyfer y cyfnod**

Y gost weithredu glir ar gyfer y cyfnod oedd £54,000. Mae hyn yn cynnwys elfennau nad ydynt yn arian parod ar gyfer cyflog y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu, a delir o'r Gronfa Gyfunol, a chost dybiannol tâl cyfalaf i'r Swyddfa. Ceir manylion y costau hyn yn nodiadau 2 a 3 i'r cyfrifon. Ar 31 Mawrth 2000 cyfanswm y dyledion clir oedd £2,000 a thelir y rhain o grant 2000-01 a delir gan y Cynulliad.

**Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru**

Penodir i Swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Goron ar gyngor Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Penodwyd Michael Buckley, sef y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu

a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd (a leolir yn Llundain), i'r Swydd dros dro hyd nes i'r Cynulliad wneud trefniadau eraill.

### Grðp Rheoli

Cynghorir Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a rhoddir cymorth iddo wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol gan aelodau hþn o staff Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr Iechyd. Ar 31 Mawrth 2000, yr aelodau hyn o staff oedd:

| | |
|---|---|
| Mr M S Buckley | Comisiynydd |
| Ms H Scott | *Dirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd* |
| Mr J Avery | *Dirprwy Gomisiynydd Seneddol dros Weinyddu* |
| Mr J Stevens | *Cyfarwyddwr Gwasanaethau Canolog* |

### Taliadau i'r Comisiynydd ac i Aelodau'r Grwp Rheoli

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, nid oes gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru hawl i unrhyw gyflog am y penodiad gan mai ef yw'r Comisiynydd Seneddol hefyd. Fel y Comisiynydd Seneddol, fe'i telir fel pe bai'n Ysgrifennydd Parhaol yn y Gwasanaeth Sifil Cartref ar gyflog sy'n cyfateb i gyflog Barnwr yn Uchel Lys Lloegr, er na ffurfiolwyd y cysylltiad hwn â chyflog Barnwr yn yr Uchel Lys. Codir cyflog y Comisiynydd, yr arolygir ei lefel yn flynyddol ym mis Ebrill, yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol.

Mae'r tâl i aelodau'r Grwp Rheoli'n seiliedig ar berfformiad ac fe'i pennir trwy Strwythur y Gwasanaeth Sifil Hyn yn unol â'r rheolau a nodir ym mhennod 7.1, Atodlen A o God Rheolwyr y Gwasanaeth Sifil.

### Rhwymedigaethau Pensiwn

Cyflawnir rhwymedigaethau pensiwn y Swyddfa o ran ei chyflogeion presennol a chyn gyflogeion trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n anghyfrannol ac nas ariennir. Er y diffinnir y PCSPS fel cynllun â buddiannau terfynol mae'r Swyddfa'n cwrdd â chost yr yswiriant pensiwn a ddarperir ar gyfer ei staff trwy dalu'r costau ar sail groniadol.

### Polisi Cyflogaeth

Mae Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb cyfle ar gyfer pob aelod o'i staff. Ymrwymodd y Swyddfa i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yn ogystal ag i fodloni gofynion statudol eraill hefyd.

Anogir datblygiad personol trwy hyfforddiant, a lle y mae'n gysylltiedig â swydd, darperir cymorth ariannol. Asesir aelodau o staff sy'n gweithio llai o oriau ar yr un sail yn union â'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser. Mae cyfleusterau lles ar gael i aelodau o staff a gallant ymuno ag undeb llafur a chael eu cynrychioli gan undeb.

Mae'r Swyddfa yn cydymffurfio â Gorchymyn Cyfrin-Gyngor y Gwasanaeth Sifil 1995 ac mae'n recriwtio ar yr egwyddor y dewisir ymgeiswyr yn ôl eu teilyngdod trwy gystadleuaeth deg ac agored yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan God Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

**Datganiad Arfer Talu**

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Safon Brydeinig ar gyfer Sicrhau Perfformiad Da o ran Talu mewn Trafodion Masnachol (BS 7890). Y polisi parthed talu yw talu anfonebau yn unol ag amodau cytundebol y cytunwyd arnynt neu, pan nad yw'r fath amodau cytundebol yn bod, o fewn 30 diwrnod iddi dderbyn nwyddau a gwasanaethau neu i anfoneb ddilys gael ei chyflwyno, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Yn ystod 1999-00 talwyd 96.48 y cant o anfonebau yn unol â'r polisi hwn.

**Archwilwyr**

Archwilir cyfrifon Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn unol â Pharagraff 10(2) Atodlen 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Digwyddiadau ers diwedd y Flwyddyn Ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiad ers dyddiad y Fantolen a gâi effaith ar y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2000.

M.S. Buckley 30 Mawrth 2001

Swyddog Cyfrifo

Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEB Y SWYDDOG CYFRIFO**

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 mae'n ofynnol i Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys, gan fanylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddelir, neu a werthwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd a wnaed o adnoddau gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail groniadol ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa, yr alldro clir o ran adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd at amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3. Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yw'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer ei Swyddfa yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'n gyfrifol am baratoi cyfrifon y Swyddfa ac am eu trosglwyddo i Archwiliwr Cyffredinol Cymru.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn arbennig mae'n ofynnol iddo:
    - dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifo a datgelu, a gweithredu polisïau cyfrifo addas yn gyson;
    - rhoi ei farn a bwrw amcangyfrifon yn rhesymol;
    - datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, fel y nodir yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau pwysig yn y cyfrifon;
    - paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau'r Swyddfa ym memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a ryddhawyd gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yn *Government Accounting.*

M.S. Buckley                                                            30 Mawrth 2001
Swyddog Cyfrifo

Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

## DATGANIAD AR Y SYSTEM RHEOLI ARIAN YN FEWNOL

1. Gwneir y datganiad hwn mewn perthynas â chyfrif adnoddau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Fel Swyddog Cyfrifo'r Swyddfa, rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau y cynhelir system rheoli arian fewnol effeithiol ac y caiff ei gweithredu mewn cysylltiad â'r adnoddau dan sylw.

2. Dim ond sicrwydd rhesymol bod asedau wedi'u diogelu, trafodion wedi'u hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir, a bod camgymeriadau neu anghysondebau sylweddol naill ai'n cael eu hatal neu y deuid o hyd iddynt o fewn cyfnod amserol y gall y system rheoli arian fewnol ei ddarparu, nid sicrwydd llwyr.

3. Mae'r system rheoli arian fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli gyson, rheoliadau a dirprwyaethau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys cadw dyletswyddau ar wahân, goruchwyliaeth gan reolwyr a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Ymgymerir â'r gwaith o ddatblygu a chynnal y system gan reolwyr gweithredol o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd.

   Yn arbennig mae'r system yn cynnwys:

   - system gyllidebu a chyflwyno adroddiadau gynhwysfawr, gyda chyllidebau blynyddol y cytunwyd arnynt ar gyfer holl reolwyr canolfannau cost ac adroddiadau ariannol misol wedi'u paratoi ar gyfer rheolwyr canolfannau cost ac aelodau'r Grwp Rheoli;
   - gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
   - paratoi adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n nodi gwir wariant yn erbyn rhagolygon;
   - adolygiadau rheolaidd gan y Grwp Rheoli, o bob adroddiad cyfnodol ac ariannol sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y perfformiad a ragwelwyd;
   - canllawiau pendant ar gyfer rheoli buddsoddiad cyfalaf;
   - Pwyllgor Archwilio, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu systemau, rheolaethau a datblygiadau ariannol.

4. Mae'r Swyddfa yn defnyddio gwasanaeth archwiliad mewnol yr Adran Addysg a Chyflogaeth, sy'n gweithredu i safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwiliad Mewnol y Llywodraeth. Mae'r gwaith a gyflawnir trwy gyfrwng archwiliad mewnol bob blwyddyn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a aseswyd gan yr archwilwyr mewnol fel y rhai â'r risg fwyaf neu lle y mae rheolwyr mewnol wedi gofyn am adolygiad. Ategir y dadansoddiad risg a'r dadansoddiad o gynlluniau'r archwiliad mewnol gan Bwyllgor Archwilio'r Swyddfa a'u cymeradwyo gennyf i. O leiaf unwaith y flwyddyn mae Pennaeth yr Archwiliad Mewnol yn fy hysbysu yn uniongyrchol, trwy gyfrwng Datganiad Sicrwydd, o'i farn ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheoli arian fewnol.

5. Llywir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli arian fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd a'r rheolwyr hynny yn Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith

rheoli arian, a chan sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

**Gweithredu Adroddiad Turnbull**

6. Fel y Swyddog Cyfrifo, rwyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac rwyf yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofyniad y Trysorlys bod datganiad rheoli mewnol yn cael ei baratoi yn unol ag arweiniad a gyhoeddir ganddo.

M.S. Buckley
**SWYDDOG CYFRIFO** 30 MAWRTH 2001

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILIWR CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Ardystiaf i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 11 i 23 yn unol â Pharagraff 10(2) Atodlen 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 16 a 17.

**Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwiliwr**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 6 mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau bod trafodion ariannol yn gyson. Mae'r Swyddog Cyfrifo hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, wedi'u sefydlu gan statud ac fe'u cyfarwyddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a chan arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn datgan fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a baratowyd hwy yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac â chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y ddeddf honno, ac, ym mhob ffordd berthnasol, a gymhwyswyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn nodi os nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os na chadwodd y Swyddfa gofnodion cyfrifo cywir, neu os na dderbyniais yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad yn fy marn i.

Rwyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 7 ac 8 yn adlewyrchu'r graddau y mae'r Swyddfa'n cydymffurfio ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar y system rheoli arian fewnol'. Rwyf yn datgan os na fydd yn cwrdd â gofynion a nodir gan y Trysorlys, neu os bydd y datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, wybodaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a geir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau pwysig a wnaed gan y Swyddfa wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac o b'un a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau'r Swyddfa, a gânt eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad yn y fath fodd fel ag i gael yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau yr oeddwn o'r farn eu bod yn angenrheidiol i ddarparu digon o dystiolaeth ar fy nghyfer fel y gallwn roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad pwysig, p'un a achoswyd hyn trwy gamgymeriad, neu dwyll neu drwy ryw anghysondeb arall ac, ym mhob ffordd berthnasol, y cymhwyswyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn gwerthusais hefyd pa mor ddigonol, yn gyffredinol, yw'r modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar 31 Mawrth 2000 ac o'r alldro clir o ran adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd at amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny ac fe'u paratowyd yn gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac â chyfarwyddiadau a wnaed o dan y ddeddf honno gan y Trysorlys; ac

- ym mhob ffordd berthnasol defnyddiwyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

*John Bourn*
Archwiliwr Cyffredinol Cymru
27 Ebrill 2001

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD CF99 1NA

**Atodlen 1**

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

## CRYNODEB O ALLDRO ADNODDAU

Ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 1999 hyd 31 Mawrth 2000

| | Gwariant Crynswth<br><br>£000 | **Incwm**<br><br>£000 | **Cyfanswm Clir**<br><br>£000 |
|---|---|---|---|
| Costau gweinyddol | 53 | - | 53 |

Cysoni alldro adnoddau â gofyniad arian parod clir

| | £000 |
|---|---|
| Cyfanswm alldro adnoddau clir (Atodlen 2) | 53 |
| Addasiadau croniadau: | |
| Eitemau nad ydynt yn arian (Nodyn 3) | - |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol ar wahân i arian parod (Nodyn 6) | (2) |
| Gofyniad Arian Parod Clir (Atodlen 4) | 51 |

1. Am ddadansoddiad o wariant alldro, gweler Atodlen 2 a Nodiadau 2 a 3 i'r cyfrifon hyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Atodlen 2**

**SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU**

**DATGANIAD COST WEITHREDU**

Ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 1999 hyd 31 Mawrth 2000

| | Nodyn | 1999-00<br>£000 |
|---|---|---|
| **Costau gweinyddol:** | | |
| Costau staff | 2 | 33 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 21 |
| **Costau Gweinyddol Crynswth** | | 54 |
| Incwm gweithredu | | - |
| **Costau Gweinyddol Clir** | | 54 |
| **COSTAU GWEITHREDU CLIR** | 5 | 54 |
| **ALLDRO ADNODDAU CLIR** | 5 | 53 |

Dechreuodd pob gweithgaredd yn ystod y cyfnod ac maent yn parhau. Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai a nodir yn y Datganiad Cost Weithredu.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Atodlen 3**

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

## MANTOLEN Ar 31 Mawrth 2000

| | Nodyn | 1999-00<br>£000 |
|---|---|---|
| **Asedau Cyfredol** | | |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 7 | 2 |
| Arian yn y Banc ac mewn llaw | 8 | - |
| | | |
| Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 9 | (4) |
| | | |
| **Dyledion Cyfredol Clir** | | (2) |
| | | |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | |
| Cronfa Gyffredinol | 13 | (2) |

M S Buckley
Swyddog Cyfrifo

30 Mawrth 2001

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Atodlen 4**

## SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU

## DATGANIAD LLIF ARIAN

Ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 1999 hyd 31 Mawrth 2000

| | Nodyn | 1999-00 |
|---|---|---|
| | | £000 |
| All-lif arian clir o weithrediadau | | (51) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | 51 |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) mewn arian parod** | | (0) |

**Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian**

| | Nodyn | 1999-00 £000 |
|---|---|---|
| **Cysoni'r gost weithredu â llifau arian gweithredu** | | |
| Cost weithredu glir | | 54 |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol (cyfran o Gyflog y Comisiynydd Seneddol) | | (1) |
| Addasu ar gyfer: | | |
| Eitemau eraill nad ydynt yn arian parod | 3 | - |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithredol ar wahân i Arian parod | 6 | (2) |
| **All-lif arian clir o weithrediadau** | | 51 |

**Dadansoddiad o gyllid**

| | Nodyn | 1999-00 £000 |
|---|---|---|
| Gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | 51 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn arian parod | | - |
| **Gofyniad arian parod clir (Atodlen 1)** | | 51 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Atodlen 5**

**SWYDDFA OMBWDSMON GWEINYDDIAETH CYMRU**

**ADNODDAU YN ÔL NODAU ADRANNOL**

Ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 1999 hyd 31 Mawrth 2000

| | 1999-00 | | |
|---|---|---|---|
| | Crynswth | Incwm | Clir |
| | £000 | £000 | £000 |
| Amcan: | | | |
| Ymdrin â phob cwyn a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym. | 54 | - | 54 |
| Costau Gweithredu Clir | 54 | - | 54 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau

### 1. Datganiad Polisïau Cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Disgrifir isod y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol mewn cysylltiad â'r cyfrifon. Gan mai dim ond ar 1 Gorffennaf 1999 y daeth y Swyddfa i fodolaeth, nid oes unrhyw ffigurau cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

**Confensiwn Cyfrifo**

1.1 Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i egluro'r ailbrisiad o asedau sefydlog a stoc, lle y bo'n berthnasol, yn ôl eu gwerth i'r busnes trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

**Asedau Sefydlog Diriaethol**

1.2 Ni ddaliai Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru unrhyw asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2000. Telir tâl gwasanaeth sy'n daladwy i Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu ar gyfer defnyddio ei hoffer yn ystod y cyfnod y mae'n digwydd.

**Tâl Cyfalaf**

1.3 Cynhwysir tâl cyfalaf nad yw'n arian parod, sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, yn y costau gweithredu ac fe'i cyfrifir ar chwech y cant mewn termau real ar bob ased llai dyledion ar wahân i weddillion arian gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol.

**Treth Ar Werth**

1.4 Ni chofrestrwyd Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar gyfer TAW yn ystod y cyfnod. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y pennawd costau mwyaf priodol.

**Pensiynau**

1.5 Cwmpesir cyflogeion presennol a chyn gyflogeion gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n anghyfrannol ac nas ariennir. Er bod y Cynllun yn gynllun â buddiannau diffiniedig, cyfrifoldeb y PCSPS yw talu buddiannau yn y dyfodol. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gynhwysir gan y PCSPS yn cwrdd â chost yswiriant pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt trwy wneud taliadau a gyfrifir ar sail groniadol. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS fel cyfanwaith.

**Prydlesi Gweithredu**

1.6 Rhoddir gwariant o dan brydlesi gweithredu ar y Datganiad Cost Weithredu yn y cyfnod pan fydd yn digwydd.

**Costau Staff a Chostau Gweinyddol Eraill**

1.7 Codwyd yr holl gostau cyflogau a chostau cysylltiedig ar gyfer staff a leolir yn Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar y cyfrifon hyn a hynny'n llawn.

Dyrennir pob gwariant arall a wneir ar ran Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru i'r cyfrifon a'i godi arnynt yn unol â'r polisïau a nodir isod (yn i-iii). Bwriedir i'r dulliau dyrannu costau roi'r adlewyrchiad mwyaf manwl o gostau rhedeg Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

i) Yn ystod y flwyddyn bu Cyfarwyddwr Gweithredol, wedi'i leoli yn Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd, yn rheoli uned ymchwilio Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Codir costau cyflog y Cyfarwyddwr a chostau cysylltiedig, gan gynnwys costau ei ysgrifennydd personol, ar Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar sail sy'n gymesur â'i raniad cyfrifoldebau. Ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 1999 hyd 31 Mawrth 2000 daeth hyn i 50 y cant o gostau cyflog y Cyfarwyddwr a chostau cysylltiedig;

ii) Dyrennir deg y cant o gostau cyflog a chostau Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Iechyd a chostau cysylltiedig, gan gynnwys costau ei ysgrifennydd personol, i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru;

iii) Dyrennir costau gorbenion a delir gan Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd, megis cyflogau Gwasanaethau Canolog, costau gweinyddol canolog eraill, ac asedau a dyledion cyfredol, yn seiliedig ar nifer yr unigolion dan sylw i Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru. Mae'r ganran a ddefnyddir ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 1999 hyd 31 Mawrth 2000 yn dri y cant; fe'i rhennir ymhellach ar gymhareb o 6:1 rhwng Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn y drefn honno.

## 2. Niferoedd a Chostau Staff

Roedd nifer y bobl ar gyfartaledd a gyflogwyd mewn swyddi cyfartal â llawn amser (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 1999-00 |
|---|---|
| | Rhif |
| Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru | 1 |
| Staff sefydlu a staff cynorthwyol | 0.2 |
| | 1.2 |

Roedd costau cyflogres crynswth y bobl hyn fel a ganlyn:

| | 1999-00 |
|---|---|
| | £000 |
| Cyflogau | 27 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 2 |
| Costau Pensiwn Eraill | 4 |
| | 33 |

Mae cyflogau'n cynnwys hawliau neilltuedig lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw staff, lwfansau swyddfeydd preifat a bonws a dalwyd yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer 1999/00 talwyd cyfraniadau o £4,000 i'r PCSPS ar gyfraddau a bennwyd gan Actiwari'r Llywodraeth ac a argymhellwyd gan Drysorlys EM. Roedd y cyfraddau hyn yn yr ystod o 12.0 i 18.5 y cant o gyflogau pensiynadwy.

Delir Swydd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu. Penodir Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru gan y Frenhines EM, ac mae'n hollol annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Telir cyflog y Comisiynydd Seneddol o'r Gronfa Gyfunol ac mae'n cyfateb i gyflog Barnwr Grwp 4 yn yr Uchel Lys. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2000 y cyfanswm a dalwyd ar gyfer cyflog y Comisiynydd oedd £122,381. Ar 31 Mawrth 2000 gwerth cronedig ei bensiwn oedd £4,000. Cynhwyswyd dyraniad o'r gost hon o fewn y cyfrifon hyn ar gyfer ei benodiad fel Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar sail y polisi fel y'i nodir yn Nodyn 1.

Roedd hawliau cyflog a phensiwn uwch reolwyr y Swyddfa fel a ganlyn:

| Enw a theitl | Cyflog gan gynnwys tâl ar sail perfformiad | Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2000 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| John AVERY<br>*Dirprwy Gomisiynydd Seneddol dros Weinyddu* | 105 – 110 | 5 – 7.5 | 45 - 50 |
| Hilary SCOTT<br>*Dirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd* | 85 – 90 | 0 – 2.5 | 0 – 5 |
| John STEVENS<br>*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Canolog a Phrif Sefydliadau a Swyddog Cyllid* | 75 – 80 | 10 – 12.5 | 25 – 30 |

Mae’r ffigurau cyflogau a phensiynau a ddarperir yn y tabl uchod yn cynrychioli hawliau llawn. Cynhwyswyd dyraniad o’r costau hyn o fewn y cyfrifon hyn.

Mae "Cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth; tâl ar sail perfformiad neu fonws; goramser; hawliau neilltuedig i lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff ac unrhyw lwfans arall i’r graddau y mae’n ddarostyngedig i drethi’r DU. Nid yw gwerth ariannol amcangyfrifedig buddiannau mewn da yn rhan o “gyflogau” at ddibenion datgelu o dan gyfrifo adnoddau.

Ar wahân i’r Comisiynydd Seneddol, darperir buddiannau pensiwn trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun statudol ydyw sy’n darparu buddiannau ar sail “cyflog terfynol” yn 60 oed, sef yr oedran ymddeol arferol. Mae buddiannau’n cronni yn ôl cyfradd o 1/80fed o’r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy’n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy ar ôl ymddeol. Mae’r aelodau’n talu cyfraniadau o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy. Mae taliadau pensiwn yn cynyddu yn unol â’r Mynegrif Prisiau Manwerthu. Ar ôl marw, mae pensiynau’n daladwy i wr neu wraig briod sy’n fyw ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd yr aelod yn marw tra’n dal i weithio mae’r cynllun yn talu budd cyfandaliad o ddwywaith y cyflog pensiynadwy ac mae hefyd yn ychwanegu swm yn seiliedig ar wasanaeth yr aelod wrth gyfrif pensiwn y priod. Mae’r swm a ychwanegir yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Gall aelod ymddeol am resymau meddygol os bydd yn ddifrifol wael ei iechyd. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb eu gostwng yn actiwaraidd a chyda thaliadau ychwanegol yn seiliedig ar wasanaeth fel yn achos pensiynau gwþr a gwragedd gweddw.

3. **Costau Gweinyddol Eraill**

| | | 1999-00 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu: | 5 | 5 |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod: | | |
| Cost tâl Cyfalaf * | - | |
| Cyflog y Comisiynydd | 1 | 1 |
| Gwariant arall: | | |
| Ffïoedd archwiliad allanol | 3 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 2 | |
| Lletygarwch | - | |
| Tâl gwasanaeth am ddefnyddio asedau sefydlog | 2 | |
| Cyflenwadau swyddfa, offer, gwasanaethau a hyffoddiant | 8 | |
| | | 15 |
| | | 21 |

* *Cost tâl cyfalaf yw -£182*

4. **Incwm Gweithredu**

Nid yw Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn codi ffïoedd am ymchwilio i gwynion ac felly nid oes gan y Swyddfa incwm gweithredu. Ymdrinnir ag arian amrywiol a dderbynnir fel CFER a'i drosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol yn y flwyddyn ddilynol. Ni dderbyniwyd incwm o'r fath yn ystod y flwyddyn.

5. **Cysoni Costau Gweithredu Clir ag Alldro Adnoddau Clir**

| | 1999-00 |
|---|---|
| | £000 |
| Cost weithredu glir | 54 |
| Llai: - Gwariant ar gyflenwi a gwariant arall y tu allan i'r gyllideb adnoddau | (1) |
| Ychwanegu: - Incwm gweithredu nas dosberthir fel Neilltuadau arian mewn cymorth ac nid o ran gwariant cyhoeddus wedi'u sgorio fel Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol | - |
| Alldro adnoddau clir | 53 |

**6. Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithredol Ar Wahân i Arian Parod**

| | 1999-00 |
|---|---|
| | £000 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn dyledwyr | 2 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn credydwyr | (4) |
| **Symudiad clir mewn cyfalaf gweithredol nad yw'n arian parod** | (2) |

**7. Dyledwyr**

| | 1999-00 |
|---|---|
| | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | |
| Benthyciadau a blaensymiau i staff* | - |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 2 |
| | 2 |

** Mae benthyciadau i staff yn dod i £73*

**8. Arian yn y Banc ac mewn Llaw**

Ni fu unrhyw arian gan Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn y banc ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2000. Gwnaed yr holl daliadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a'r Gwasanaeth Iechyd ar ran Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

Roedd balans arian parod mewn llaw o £13 ar 31 Mawrth 2000. Cynhwysai hyn stampiau a chredyd mewn perthynas â'r peiriant ffrancio.

**9. Credydwyr: Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | 1999-00 |
|---|---|
| | £000 |
| Credydwyr amrywiol | - |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 4 |
| **Cyfanswm sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 4 |

## 10. Ymrwymiadau O Dan Brydlesi Gweithredu

| | 1999-00 | |
|---|---|---|
| | Adeiladau | Arall |
| | £000 | £000 |
| Ar 31 Mawrth 2000 roedd y Swyddfa wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesi gweithredu'n dod i ben: | | |
| O fewn blwyddyn | - | - |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | - | 1 |
| Ar ôl pum mlynedd | 4 | - |
| | 4 | 1 |

## 11. Rhwymedigaethau Achlysurol

Ar 31 Mawrth 2000, nid oedd unrhyw rwymedigaethau achlysurol.

## 12. Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2000, nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf.

## 13. Cysoni Costau Gweithredu Clir â newidiadau yn y Gronfa Gyffredinol

| | 1999-00 |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost weithredu glir ar gyfer y flwyddyn (Atodlen 2)** | (54) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 51 |
| Cyllid nas dyfarnwyd o'r Gronfa Gyfunol | 1 |
| Taliadau nad oeddent yn daliadau arian parod: | |
| Cost cyfalaf | - |
| **Gostyngiad clir yn y gronfa gyffredinol** | (2) |
| Cronfa Gyffredinol ar 1 Gorffennaf 1999 | - |
| Cronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2000 (Atodlen 3) | (2) |

## 14. Paratoi Crynodeb Alldro Adnoddau

Mae gan y Swyddfa un brif nod, sef ymdrin â phob cwyn a gyfeirir at y Swyddfa'n ddiduedd, yn wrthrychol, yn effeithiol ac yn gyflym. Dyrennir y gost y mae'r Swyddfa'n mynd iddi wrth gyflawni'r nod hon fel a ganlyn.

Priodolir costau sy'n ymwneud yn benodol â Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn uniongyrchol i'r adrannau hynny.

Priodolir costau gweinyddol a chostau sefydlu i Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn unol â gweithdrefnau cyfrifo rheoli'r Swyddfa. Rhifau personol yw'r prif sbardun cost a ddefnyddir ar gyfer dyrannu'r costau anuniongyrchol hyn.

Ceir disgrifiadau llawn o nodau strategol Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn y Rhagair i'r cyfrifon hyn.

## 15. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Ar hyn o bryd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yw'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisynydd Gwasanaeth Iechyd Lloegr hefyd. O ganlyniad ystyrir bod Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd a Chomisynwyr y Gwasanaeth Iechyd yn bartïon cysylltiedig y bu gwahanol drafodion pwysig â hwy yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal cafodd Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru nifer fach o drafodion gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyda chyrff eraill llywodraeth ganolog.

Nid ymgymerodd ef na'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu nac unrhyw aelod o'r Grwp Rheoli nac unrhyw aelod allweddol o'r staff rheoli ag unrhyw drafodion pwysig gyda'r Swyddfa yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.